# Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg
## Awst 2020 – Gorffennaf 2021

## Rhagymadrodd

Mae'r adroddiad hwn yn adrodd ar y cyfnod o 1 Awst 2020 hyd at ddiwedd blwyddyn ariannol y sefydliad, sef 31 Gorffennaf 2021.

Ers 1 Ebrill 2018, mae Prifysgolion yng Nghymru yn ddarostyngedig i Reoliadau Safonau'r Gymraeg (rhif 6) 2017 a sefydlwyd o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Mae Safonau'r Gymraeg yn egluro sut y mae disgwyl i'r Brifysgol ddarparu gwasanaethau penodol drwy gyfrwng y Gymraeg gan sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Rhaid i brifysgolion gyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar eu cydymffurfiaeth â'r Safonau.

Yn unol â gofynion y Safonau, mae'r adroddiad blynyddol yn nodi'r modd i ni gydymffurfio â'r Safonau'r Gymraeg, ac yn cynnwys y wybodaeth ofynnol isod.

- **Cydymffurfiaeth â'r Safonau**
  Sut mae'r Brifysgol wedi cydymffurfio â'r safonau cyflenwi gwasanaeth, safonau polisi a safonau gweithredu yn ystod y flwyddyn.

- **Sgiliau Cymraeg y Gweithlu**
  Nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd y flwyddyn o dan sylw.

- **Hyfforddiant**
  Nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi yn y Gymraeg yn ystod y flwyddyn; ac os cynigiwyd fersiwn Gymraeg o gwrs yn ystod y flwyddyn, y ganran o gyfanswm nifer y staff a fynychodd fersiwn Gymraeg y cwrs.

- **Swyddi**
  Nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn lle gofynnwyd —
    - bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol,
    - bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd,

- bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol, neu
- nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol,

- **Cwynion**
  Nifer y cwynion a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn yn ymwneud â chydymffurfio â'r safonau cyflenwi gwasanaeth, safonau polisi a safonau gweithredu.

Cymeradwywyd yr adroddiad hwn gan Gyngor y Brifysgol i'w gyhoeddi ar ein gwefan www.aber.ac.uk/cy/cgg

Mae **atodiad 1** yn cynnwys disgrifiad o'r lefelau Cymraeg (A0 - C2) a chyfeirir atynt yn yr adroddiad, ac **atodiad 2** yn cynnwys disgrifiad o'r lefelau Dysgu Cymraeg.

## Datblygiadau 2020-21

### Ail Agor Neuadd Pantycelyn

Ail agorwyd Neuadd Pantycelyn ar 18 Medi 2020 gyda'r myfyrwyr yn dychwelyd ar gyfer dechrau'r flwyddyn academaidd newydd.

Mae'r Neuadd wedi ei thrawsnewid gan fuddsoddiad o £16.5m, a'n cynnig llety o'r radd flaenaf a chartref modern a chyfoes i gymuned fyrlymus myfyrwyr Cymraeg y Brifysgol.

Cyhoeddwyd fideo i hyrwyddo Neuadd Pantycelyn ym mis Tachwedd 2020. https://www.youtube.com/watch?v=nIvyJF2Yfc0

Gwelwyd swyddfa Undeb Myfyrwyr Cymraeg Aberystwyth (UMCA) yn dychwelyd i'r neuadd, ac yn ystod y flwyddyn bu cydweithio rhwng Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg, Cangen y Coleg Cymraeg ac UMCA ar hyrwyddo digwyddiadau rhithiol megis diwrnod Hawliau (Rhagfyr 2020) a Diwrnod Shwmae (Hydref 2020).

### Is-gynllun y Gymraeg a'i Diwylliant 2019-2023

Dyma ail flwyddyn gweithredu Is-gynllun y Gymraeg a'i Diwylliant 2019-2023.

Pwrpas yr Is-gynllun yw amlygu'r prif weithgareddau sy'n gwneud Prifysgol Aberystwyth yn sefydliad dwyieithog uchelgeisiol, sy'n galluogi ac yn hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg.

Yn ystod 2020-21 datblygwyd cynlluniau iaith gyda holl adrannau Gwasanaethau Proffesiynol y Brifysgol er mwyn cyrraedd y nod deuol o hyrwyddo defnyddio'r iaith ac o hybu cydymffurfiaeth â gofynion y Safonau.

Cymeradwywyd rhaglen waith yr Is-gynllun ar gyfer 2021-22 sy'n cynnwys datblygu Strategaeth Darpariaeth Academaidd Cyfrwng Cymraeg newydd a gweithgareddau i hybu'r Gymraeg fel rhan o ddathliadau'r Brifysgol yn 150 flwyddyn nesaf.

### Cynlluniau Iaith Adrannol (Gwasanaethau Proffesiynol)

Rhwng mis Tachwedd 2020 a Mawrth 2021, bu Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg yn cwrdd â phenaethiaid holl adrannau Gwasanaethau Proffesiynol y Brifysgol er mwyn

cytuno ar gynlluniau adrannol i hybu'r Gymraeg ac i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Safonau. Cytunwyd ar gynlluniau adrannol gyda phenaethiaid ar sail asesiad o'r sefyllfa gyfredol ym mhob adran o ran cydymffurfiaeth â'r Safonau, yn ogystal â'r thrafodaethau ynglŷn â chyfleoedd posib i hyrwyddo a chefnogi'r Gymraeg.

Cytunwyd ar gamau gweithredu gyda'r adrannau ac adnabuwyd cyfleoedd i hyrwyddo a chefnogi'r Gymraeg mewn sawl adran.

Roedd cyflwyno trefn newydd o gynlluniau adrannol yn ddarn sylweddol o waith gyda phwyslais pennaf ar gydymffurfiaeth â'r Safonau yn ystod 2020-21. Bu'r cynlluniau hefyd yn gyfle i hyrwyddo'r cyfleoedd dysgu a gwella Cymraeg sydd ar gael i staff ynghyd ag adnabod cyfleoedd i adrannau hyrwyddo'r Gymraeg o fewn eu rhaglenni gwaith amrywiol.

Cyflwynwyd diweddariad ar y cynlluniau adrannol a'r canfyddiadau cychwynnol i Grŵp Gweithredol y Gymraeg (Mawrth 2021) a Gweithrediaeth y Brifysgol (Ebrill 2021).

Cytunwyd ar gynlluniau a chafwyd cyfarfodydd â'r adrannau proffesiynol isod.

1. Adnoddau Dynol
2. Arloesi Aber
3. Canolfan y Celfyddydau
4. Y Gofrestrfa Academaidd
5. Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus
6. Datblygu a Chysylltiadau Alumni
7. Dysgu Cymraeg
8. Gwasanaethau Cymorth Myfyrwyr a Gyrfaoedd
9. Gwasanaethau Masnachol
10. Llywodraethiant
11. Marchnata a Denu Myfyrwyr
12. Swyddfa Gyllid
13. Swyddfa'r Is Ganghellor
14. Ymchwil, Busnes ac Arloesi
15. Ysgol y Graddedigion
16. Ystadau, Cyfleusterau a Phreswylfeydd

**Cyrsiau Dysgu Cymraeg i Staff**

Hyrwyddwyd Cyrsiau Dysgu Cymraeg yn reolaidd yn ystod y flwyddyn ac anogwyd staff i gofrestru ar gyrsiau. Yn ogystal, bu aelod o staff o'r tîm Dysgu Cymraeg yn cydlynu trefniadau ar gyfer darparu cyrsiau penodedig i rhai o adrannau'r Brifysgol. Darparwyd cyrsiau dysgu Cymraeg penodol ar gyfer staff Adran Adnoddau Dynol a hefyd staff Gwasanaethau Gwybodaeth.

Bu Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg a'r tîm Dysgu Cymraeg yn cydweithio'n agos gan gyfarfod yn rheolaidd i drafod, adolygu a chynllunio cyrsiau posibl ar gyfer staff. Darparwyd yr holl gyrsiau ar lein dros Zoom yn ystod 2020-21.

Derbyniodd y Brifysgol nawdd gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ar gyfer darparu Cyrsiau 'Cymraeg Gwaith' ar gyfer staff. Rhan bwysig o'r cynllun yw'r cyfle i gael aelod o staff sy'n siarad Cymraeg i fod yn fentor a gwelwyd staff yn parhau i fentora dros Microsoft Teams gan gwrdd yn rheolaidd i sgwrsio yn Gymraeg.

Sefydlwyd safle **Teams 'Dysgu ac Addysgu Cyfrwng Cymraeg'** ar gyfer staff y Brifysgol a threfnwyd cyfres o hyfforddiant cyfrwng Cymraeg ar gyfer staff.

Bu **Fforwm Hyfforddiant Cyfrwng Cymraeg** hefyd yn cyfarfod yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn i drafod, adolygu a chynnig syniadau ar gyfer datblygu'r arlwy.

## Gwobrau Gŵyl Dewi Aber 2020

Yn dilyn gohirio'r Gwobrau ym mis Mawrth 2020 o ganlyniad i COVID-19, braf oedd gallu dathlu enillwyr Gwobrau Gŵyl Dewi 2020 ar ddiwrnod **Shwmae Su'mae** 15 Hydref 2020.

Cafodd y pum enillydd eu dewis ar gyfer y gwobrau canlynol:

- **Dysgwr Disglair (Staff)** – Sarah Whitehead
- **Hyrwyddo'r Gymraeg yn y Gweithle** – Dafydd Rhys a Fiona Reynolds
- **Astudio Trwy'r Gymraeg** – Heledd Davies
- **Pencampwr y Gymraeg (Myfyriwr)** – Rhian Williams

Derbyniodd yr enillwyr englyn personol gan Eurig Salisbury, bardd a darlithydd Ysgrifennu Creadigol yn Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd y Brifysgol; a cyhoeddwyd fideo i ddathlu'r gwobrau.

https://www.aber.ac.uk/cy/cgg/gwobraudewi/dewi-2020/

## Ysgoloriaethau

Ailwampiwyd Ysgoloriaethau Astudio drwy'r Gymraeg y Brifysgol, gyda myfyrwyr yn derbyn £200 am astudio 5 credyd drwy'r Gymraeg gyda £50 yn ychwanegol ar gyfer bob 20 credyd cyfrwng Cymraeg ar ben hynny, hyd at uchafswm o £400.

Crëwyd fideos i hyrwyddo'r ddarpariaeth Gymraeg a'r ysgoloriaethau sydd ar gael a chafwyd nifer da o geisiadau am Ysgoloriaethau Cymhelliant y Coleg Cymraeg. Yn anffodus, nid oedd modd cynnal nifer o ddigwyddiadau wyneb yn wyneb oherwydd pandemig Covid-19.

## Darpariaeth ym meysydd Milfeddygaeth a Nyrsio

Yn ystod y flwyddyn cyhoeddwyd datblygiadau newydd o ran cyrsiau milfeddygaeth i ddechrau'n Medi 2021, a hefyd cynllun gradd Nyrsio i ddechrau ym Medi 2022 a fydd yn cynnwys darpariaeth yn Gymraeg.

Dyfarnodd Addysg a Gwella Iechyd Cymru [AGIC] gytundeb 10 mlynedd i'r Brifysgol hyfforddi nyrsys oedolion ac iechyd meddwl tan ddiwedd y degawd.

Bydd pwyslais ar y Gymraeg yn rhan o'r cynlluniau nyrsio a chefnogaeth i fyfyrwyr gwblhau hyd at 50% o'r cwrs yn Gymraeg drwy fodiwlau ymarferol, lle caiff myfyrwyr eu cynorthwyo gan Arolygwyr Ymarfer ac Aseswyr Ymarfer sy'n siarad Cymraeg yn ystod

eu lleoliadau clinigol. Bydd cefnogaeth hefyd i'r rheini sydd yn awyddus i ddysgu Cymraeg ac fe fydd gwersi sgwrsio sylfaenol yn gysylltiedig ag iechyd yn rhan o'r rhaglen.

## Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg

**Trefniadau Cydymffurfio**
Yn unol â'r Safonau, mae gan y Brifysgol ddogfen sy'n egluro'r camau yr ydym wedi cymryd i gydymffurfio â'r holl safonau - Trefniadau Goruchwylio'r Safonau Iaith

Yn ystod 2020-21, er mwyn cryfhau ein trefniadau monitro cydymffurfiaeth bu Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg yn cwrdd â phenaethiaid adrannau Gwasanaethau Proffesiynol er mwyn cytuno ar gynlluniau iaith adrannol. Bu'n gyfle i adnabod cyfleoedd i hyrwyddo defnydd y Gymraeg yn fewnol a hefyd i asesu cydymffurfiaeth â'r Safonau ar draws Gwasanaethau Proffesiynol y sefydliad.

**Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg**

Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg sy'n gyfrifol am gynorthwyo adrannau'r Brifysgol i weithredu Safonau'r Gymraeg, ac maent yn cynnig cyngor i staff er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth ar draws y Brifysgol. Mae'r Ganolfan yn cynnwys tîm cyfieithu sy'n darparu gwasanaeth cyfieithu testun a chyfieithu ar y pryd i adrannau'r Brifysgol.

Mae trefniadau cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd rhithiol bellach wedi ei sefydlu, ac mae gan y Brifysgol weithdrefnau penodol o ran cymeradwyo defnyddio Zoom mewn cyfarfodydd sydd angen gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. Golygai hyn ein bod wedi gallu parhau i gynnal y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn ystod y flwyddyn wrth i ni gynnal mwyafrif ein cyfarfodydd yn rhithiol.

Hyrwyddwyd dathliad **Diwrnod Shwmae Su'mae** ar 15 Hydref 2020 gyda Gwobrau Gŵyl Dewi Aber 2020, a hefyd diwrnod 'Mae gen i hawl' ar 7 Rhagfyr 2020 dros Teams ar y cyd gyda staff y Coleg Cymraeg ac UMCA.

Yn yr un modd, hyrwyddwyd **Dydd Miwsig Cymru** yn rhithiol ar 5 Chwefror 2021 a gwelwyd Canolfan y Celfyddydau'n gwahodd negeseuon Trydar i enwebu geiriau caneuon Cymraeg i'w gosod ar risiau'r adeilad.  Bu Canolfan y Celfyddydau hefyd yn trefnu cyfres o ddigwyddiadau ar lein a oedd yn cynnwys gweithgareddau celfyddydol gweledol yn ogystal â digwyddiadau a pherfformiadau byw.

**Cyngor a Chanllawiau**
Mae canllawiau ar gydymffurfio â'r Safonau ynghyd â pholisïau a strategaethau'r Brifysgol o ran hyrwyddo'r Gymraeg ar gael ar dudalen gwe Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg www.aber.ac.uk/cy/cgg/

Mae 14 o ganllawiau wedi'u cyhoeddi ynghyd â chrynodeb o ofynion y Safonau er mwyn cynorthwyo staff y Brifysgol i gydymffurfio.

Rhan allweddol o waith Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg yw darparu cyngor ac arweiniad i adrannau, ac yn ystod y flwyddyn bu aelodau staff yn cynghori ar amrywiaeth eang o ymholiadau ynglŷn â'r Gymraeg. Mae'r gefnogaeth yn cynnwys arweiniad ar y Safonau Iaith yn ogystal â thrafod ac adnabod cyfleoedd i ddatblygu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn adrannau. Bu cydweithio agos rhwng y Ganolfan â darpariaeth Dysgu Cymraeg Ceredigion, Powys a Sir Gaerfyrddin er mwyn cefnogi staff i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg.

Law yn llaw a darparu arweiniad a chefnogaeth i aelodau staff, darparwyd cyflwyniadau ar gyfer nifer o adrannau yn cynnwys Adran Gwasanaethau Cymorth Myfyrwyr, Gwasanaethau Gwybodaeth a'r Adran Gyllid.

**Grŵp Gweithredol y Gymraeg**

Yn ystod y flwyddyn academaidd, cynhaliwyd tri cyfarfod o Grŵp Gweithredol y Gymraeg.

Grŵp Gweithredol y Gymraeg sy'n arwain ac yn monitro Strategaethau a Pholisïau hybu'r Gymraeg y Brifysgol, ac yn adrodd am gydymffurfiaeth â'r Safonau ar draws y Brifysgol gan ddatblygu hyfforddiant a chyngor addas.

Yn ystod y flwyddyn derbyniodd Gweithrediaeth y Brifysgol sawl adroddiad ar weithgaredd y Grŵp. Mae Dirprwy Is-Ganghellor â gofal am y ddarpariaeth academaidd Cymraeg yn diweddaru'r Grŵp am y gwaith a wneir gan y Pwyllgor Astudiaethau Cyfrwng Cymraeg mewn perthynas â darpariaeth academaidd cyfrwng Cymraeg y Brifysgol.

**Safonau Polisi**

Mae'r trefniadau o ran ystyried effaith penderfyniadau polisi ar y Gymraeg wedi eu sefydlu ac yn parhau. Mae gan y Brifysgol ffurflen Asesiad Ardrawiad Iaith sydd ar wefan Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg ac ar dudalen cydraddoldeb gwefan Adnoddau Dynol. Mae Blaenddalen adroddiadau pwyllgor y Brifysgol yn cynnwys cwestiwn o ran goblygiadau ar gyfer Safonau'r Gymraeg a disgwylir cwblhau asesiad ardrawiad effaith os adnabu goblygiadau.

Mae canllaw ar gyfer asesu penderfyniadau polisi ar y Gymraeg yn cynnwys cymorth i ddiffinio penderfyniad polisi, cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a sut i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Datblygu neu Addasu darpariaeth Academaidd**

Bu Pwyllgor Astudiaethau Cyfrwng Cymraeg yn cyfarfod tair gwaith yn ystod y flwyddyn academaidd. Yn un o is-bwyllgorau'r Bwrdd Academaidd, cadeirir y pwyllgor gan y Dirprwy Is Ganghellor gyda gofal am y ddarpariaeth academaidd Cymraeg ac mae aelodau'r pwyllgor yn cynnwys yr Is-Ddeoniaid cysylltiol gyda gofal am y Gymraeg, Swyddog Cangen PA o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Rheolwr Gwasanaethau'r Gymraeg, aelod o'r tîm marchnata, aelod o dîm Gwasanaethau Gwybodaeth, y Gofrestrfa Academaidd, a llywydd UMCA. Yn unol â gofynion Safon 104, mae gweithdrefn clir wedi ei sefydlu er mwyn ystyried yr effaith ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, ac i beidio â

thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg gydag unrhyw gynigion i newid y ddarpariaeth academaidd.

**Polisi Defnydd Mewnol o'r Gymraeg**

Dyma ail flwyddyn gweithredu ein Polisi Defnydd Mewnol o'r Gymraeg sy'n adeiladau ar ymrwymiadau ein Cynllun Strategol 2018-2023 '*I'r Ganrif a Hanner Nesaf*' a thraddodiad y Brifysgol o gefnogi dwyieithrwydd yn y gweithle. Mae'r polisi yn nodi ymrwymiadau'r Brifysgol o ran gweithredu'n ddwyieithog a chefnogi staff i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith.

Targedau'r Polisi

- **90%** o'r staff sy'n rhugl yn y Gymraeg yn defnyddio'r Gymraeg yn ddyddiol yn y gwaith (B2-C2).
- **50%** o'r staff sy'n dysgu'r iaith neu nad ydynt yn ystyried eu hunain yn rhugl (A1-B1) yn defnyddio'r Gymraeg yn ddyddiol yn y gwaith.
- **50%** o weithlu Gwasanaethau Proffesiynol y Brifysgol yn medru'r Gymraeg (ar Lefel B1-C2) erbyn 2029.

Cynhelir arolygon defnydd iaith staff bob dwy flynedd, a bwriedir cynnal yr arolwg nesaf ym mis **Hydref 2021**.

Ar 31 Gorffennaf 2021 roedd gan **37.9%** o weithlu Gwasanaethau Proffesiynol sgiliau Cymraeg ar Lefel B1-C2. Noder fod y ffigwr hwn yn cynrychioli unigolion nid contractau, ac mae'r ganran yn cynrychioli'r staff sydd wedi nodi eu sgiliau iaith ar Pobl Aber yn unig (88.4% o staff Gwasanaethau Proffesiynol)

Mae Grŵp Gweithredol y Gymraeg yn derbyn adroddiad ym mhob cyfarfod yn diweddaru ar Strategaeth Sgiliau Dwyieithog y Brifysgol. Mae'r adroddiadau yn cynnwys y data canlynol:
(a) Gwybodaeth am ofynion ieithyddol pob swydd a hysbysebwyd.
(b) Crynodeb o lefelau sgiliau iaith y penodiadau
(c) Canran y Gweithlu (Gwasanaethau Proffesiynol) â sgiliau Cymraeg ar lefel B1 neu uwch.
(ch) Gwybodaeth am y nifer o staff ar gyrsiau Cymraeg.

## Swyddi

Hysbysebwyd **644** o swyddi gan Brifysgol Aberystwyth rhwng 1 Awst 2020 a 31 Gorffennaf 2021 (ac eithrio swyddi *AberYmlaen* a *GwaithAber*).

| Categori | Nifer | % |
|---|---|---|
| **Sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol.**<br>*Swyddi â sgiliau Cymraeg (llafar) yn hanfodol ar lefel A1 neu uwch.* | **199** | **30.9%** |
| **Sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol.** | **425** | **66.0%** |

| | | |
|---|---|---|
| *Swyddi â'r Gymraeg (llafar) yn ddymunol ar lefel A1 neu uwch (os nad oedd sgiliau Cymraeg yn hanfodol)* | | |
| **Swyddi lle nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol.** *Swyddi heb ofyniad ieithyddol (A0) lle nad oedd sgiliau Cymraeg yn angenrheidiol (hanfodol/dymunol). Mae'r gallu i ddeall natur ddwyieithog y Brifysgol ac ymwybyddiaeth o'r trefniadau sydd mewn lle i gefnogi gweithio yn ddwyieithog, yn ofyniad hanfodol ar holl swyddi A0 sydd heb ofyniad ieithyddol.* | **20** | **3.1%** |

Asesir pob swydd ar gyfer gofynion iaith drwy system *E-Recruiter* a chaiff pob un asesiad ei wirio gan Ganolfan Gwasanaethau'r Gymraeg yn unol â Strategaeth Sgiliau Dwyieithog y Brifysgol a gofynion Safon 145.

Hysbysebir pob swydd yn ddwyieithog ac mae pob swydd yn nodi un ai bod lefel penodol o'r Gymraeg yn sgil hanfodol neu ddymunol, neu fe ofynnir am ymwybyddiaeth o natur ddwyieithog y Brifysgol pan nad yw'r gallu i ddefnyddio'r Gymraeg yn ofyniad hanfodol.

## Cwynion

Derbyniwyd **4** cwyn mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg yn ystod y cyfnod adrodd.

| Dosbarth o Safonau | Cwynion a dderbyniwyd yn uniongyrchol |
|---|---|
| Safonau Cyflenwi Gwasanaethau | **4** |
| Safonau Llunio Polisi | **0** |
| Safonau Gweithredu | **0** |

Cedwir cofnod a manylion cwynion a dderbynnir gan Ganolfan Gwasanaethau'r Gymraeg a darperir adroddiad cryno i Grŵp Gweithredol y Gymraeg ac i Gyngor y Brifysgol.

Yn ystod y flwyddyn cyflwynwyd adroddiad ar gwynion yn ymwneud â'r Safonau a Pholisi Defnydd Mewnol o'r Gymraeg i Bwyllgor Llywodraethiant a Chydymffurfio y Brifysgol, ac i Weithrediaeth a Chyngor y Brifysgol.

Ceir fanylion ynglŷn â gweithdrefn gwyno'r Brifysgol o ran Safonau'r Gymraeg ar ein gwefan

## Sgiliau Cymraeg y Gweithlu

Ar **31 Gorffennaf 2021** dadansoddwyd gwybodaeth am sgiliau iaith yr holl staff sydd â'u manylion wedi eu diweddaru. Defnyddir Fframwaith cyfeirio Cyffredin Ewrop (CEFR) ar gyfer y lefelau – Gweler **atodiad 1.**

| **Nifer y staff â Sgiliau Cymraeg (31 Gorffennaf 2021)** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Lefelau** | **Nifer Llafar** | **% Llafar** | **Nifer Ysgrifenedig** | **% Ysgrifenedig** |
| A0 | 680 | 33.3% | 877 | 43.0% |
| A1 | 350 | 17.2% | 268 | 13.1% |
| A2 | 142 | 7.0% | 79 | 3.9% |
| B1 | 149 | 7.3% | 140 | 6.9% |
| B2 | 163 | 8.0% | 194 | 9.5% |
| C1 | 91 | 4.5% | 76 | 3.7% |
| C2 | 237 | 11.6% | 167 | 8.2% |
| Dim Data | 228 | 11.2% | 239 | 11.7% |
| **Cyfanswm** | **2040** | | **2040** | |

## Hyfforddiant

Yn unol â safon **135** mae'r Brifysgol yn darparu hyfforddiant cyfrwng Cymraeg yn y meysydd canlynol os cânt eu darparu'n Saesneg

- Recriwtio a chyfweld;
- Rheoli perfformiad;
- Gweithdrefnau cwyno a disgyblu;
- Ymsefydlu;
- Delio â'r cyhoedd; ac
- Iechyd a diogelwch.

| **Teitl y Cwrs** | **Nifer y Cyrsiau** | **Nifer a fynychodd y sesiwn yn Gymraeg** | **Nifer a fynychodd y sesiwn yn Saesneg** |
|---|---|---|---|
| **Iechyd a Diogelwch** | | | |
| Asesu Risg | 1 | 0 | 8 |
| Codi a Chario | 4 | 0 | 22 |
| Swyddog Tân | 0 | 0 | 0 |
| Cyflwyniad i COSH (Control of Substances Hazardous to Health) | 0 | 0 | 0 |
| Defnyddio ysgol yn ddiogel | 6 | 0 | 34 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cwrs Gweithio'n Ddiogel IOSH (Institution of Occupational Safety and Health) | 0 | 0 | 0 |
| Cwrs Rheoli'n Ddiogel IOSH | 0 | 0 | 0 |
| Diogelwch Tân | 1 | 0 | 4 |
| Cymorth Cyntaf yn y Gwaith | 2 | 0 | 10 |

Yn ystod y cyfnod dan sylw, ni ddarparwyd hyfforddiant yn Gymraeg neu'n Saesneg yn y meysydd isod.

- Recriwtio a Chyfweld
- Rheoli perfformiad;
- Gweithdrefnau cwyno a disgyblu;
- Ymsefydlu;
- Delio â'r cyhoedd

Bu adran Adnoddau Dynol (AD) y Brifysgol yn rheoli ymateb y sefydliad i bandemig COVID-19, ac o ganlyniad bu saib i'r ddarpariaeth hyfforddiant arferol ag arweinir gan AD.

Tu hwnt i'r meysydd uchod, mae staff hefyd yn cwblhau'r cyrsiau hyfforddiant canlynol sydd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

| **Cwrs** | **Nifer a gwblhaodd yr hyfforddiant yn Gymraeg** |
|---|---|
| Diogelu Data (GDPR) | 16 |
| Diogelu Gwybodaeth | 8 |
| Rhagfarn Ddiarwybod | 3 |
| Amrywiaeth yn y Gweithle | 4 |
| Ymwybyddiaeth Dyletswydd Prevent | 27 |

## Hyfforddiant Dysgu Cymraeg

Gweler fanylion y lefelau Dysgu Cymraeg yn **atodiad 2.**

**Cyrsiau 'Cymraeg Gwaith' 2020-21**

Ariannir Cynllun Cymraeg Gwaith drwy'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol o dan nawdd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, rhwng dechrau Ebrill a diwedd Mawrth. Nod y cynllun yw gwella sgiliau Cymraeg yn y gweithle, gyda phwyslais penodol ar gymhwyso'r hyn a ddysgir yn y gweithle, boed swyddi academaidd neu wasanaethau proffesiynol.

Roedd gofyn i'r staff gwblhau 120 awr y flwyddyn o ddysgu, er mwyn cwblhau lefel, drwy gyfuniad o gyrsiau wythnosol (2 awr yr wythnos fel arfer), sesiynau cefnogi un i un gan diwtor, astudio annibynnol a mynychu cyrsiau undydd). Yn rhan o'r cynllun cynigir mentor (aelod arall o staff sy'n siarad Cymraeg o fewn y Brifysgol) i gefnogi'r dysgu.

| Cwrs | Nifer staff wedi cofrestru |
|---|---|
| Mynediad | 13 |
| Mynediad + | 8 |
| Canolradd | 7 |
| Uwch + | 8 |
| **Cyfanswm** | **36** |

Yn 2020-21, darparwyd cwrs dysgu Cymraeg penodedig i rai adrannau proffesiynol y Brifysgol. Bu 8 aelod o staff Adnoddau Dynol yn mynychu cwrs 30 wythnos (Lefel Mynediad a Chwrs Canolradd). Yn ogystal, mynychodd 22 aelod o staff Gwasanaethau Gwybodaeth cwrs ar lefelau Mynediad, Sylfaen a Chanolradd. Bwriad y ddau gwrs yw datblygu sgiliau a chynyddu hyder staff i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith.

**Cyrsiau Dysgu Cymraeg Cymunedol**

Mae Adran Dysgu Cymraeg y Brifysgol yn darparu rhaglen o gyrsiau cymunedol. Bydd y Brifysgol yn talu costau staff sy'n mynychu'r cyrsiau hyn. Mynychodd 51 o staff gyrsiau cymunedol Dysgu Cymraeg yn ystod y cyfnod.

| Lefel y Cwrs Cymunedol | Nifer |
|---|---|
| Mynediad (1 a 2) | 18 |
| Sylfaen | 6 |
| Canolradd | 9 |
| Uwch | 5 |
| Hyfedredd | 1 |
| Gloywi | 5 |
| Cwrs Haf 2019 | 5 |
| Cwrs Cymraeg Proffesiynol | 1 |
| Cwrs Calan | 1 |
| **Cyfanswm** | **51** |

Bu 95 o unigolion yn astudio ar gyfer Tystysgrif Sgiliau Iaith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn ystod 2020-21 gyda 57 ohonynt yn fyfyrwyr 2019-20 nad oedd wedi gallu cwblhau'r Dystysgrif oherwydd rheoliadau Covid-19. Cynhaliwyd asesiad llafar yn ystod mis Chwefror ac yna arholiad ysgrifenedig rhithiol yn y gwanwyn.

Gweler nifer y staff a gofrestrodd ar gyfer Cyrsiau Dysgu Cymraeg Gwaith byr ar-lein isod.

**Cyrsiau Byr Dysgu Cymraeg ar-lein – adroddiad data hyd 31 Gorffennaf 2021**

Dyma gyrsiau blasu ar-lein a ddarperir gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol. Cyrsiau hunan astudio ydynt, ac maent ar gael fel opsiwn hunan-ddewisol i gyflogwyr a staff ar draws Cymru.

Mae rhai cyrsiau wedi eu teilwra ar gyfer gwahanol sectorau, e.e. manwerthu. Cyrsiau 10 awr o hyd ydynt (5 awr fesul rhan).

| Cwrs Dysgu Cymraeg Byr ar-lein | Nifer o staff wedi cofrestru | Wedi cwblhau |
|---|---|---|
| Croeso (Rhan 1) | 175 | 42 |
| Croeso (Rhan 2) | 51 | 23 |
| Croeso Nol (Rhan 1) | 49 | 17 |
| Croeso Nol (Rhan 2) | 18 | 8 |
| Gwella eich Cymraeg (Rhan 1) | 24 | 3 |
| Gwella eich Cymraeg (Rhan 2) | 4 | 1 |
| Sector Gwasanaethau Brys | 6 | 1 |
| Sector Manwerthu (Rhan 1) | 6 | 3 |
| Sector Manwerthu (Rhan 2) | 3 | 2 |
| Sector Twristiaeth (Rhan 1) | 2 | |
| Gofal Cymdeithasol (Rhan 1) | 1 | 1 |
| Athrawon (Rhan 1) | 5 | |
| Athrawon (Rhan2) | 1 | |

## Manylion Cyswllt

**Dylan Hughes**
Rheolwr Gwasanaethau'r Gymraeg

**Lowri Angharad Jones**
Swyddog Datblygu Gwasanaethau Cymraeg

**Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg**
Prifysgol Aberystwyth,
www.aber.ac.uk/cy/cgg
CanolfanGymraeg@aber.ac.uk

## Atodiad 1 - Lefelau Iaith Gymraeg

| Lefel Iaith | Siarad (rhyngweithio a chynhyrchu) | Ysgrifennu |
|---|---|---|
| **A0** | Nid wyf yn medru siarad Cymraeg o gwbl. | Nid wyf yn medru ysgrifennu Cymraeg o gwbl. |
| **A1** | Rwy’n gallu :<br>• rhyngweithio mewn ffordd syml ar yr amod bod y person arall yn barod i siarad yn araf, ailadrodd neu aralleirio pethau, ynghyd â bod yn barod i’m helpu.<br>• defnyddio ymadroddion a brawddegau syml e.e. cyflwynofy hunan neu berson arall,<br>• gofyn ac ateb cwestiynau cyfarwydd e.e. ‘Ble dych chi’n byw?’ | Rwy’n gallu:<br>• ysgrifennu neges fer syml ar ffurf e-bost neu nodyn, gan gynnwys yr amser, y dyddiad a’r lleoliad.<br>• llenwi ffurflenni â’m manylion personol, e.e. enw, cyfeiriad a rhif ffôn. |
| **A2** | Rwy’n gallu:<br>• siarad mewn iaith syml ar bynciau cyfarwydd.<br>• cymryd rhan mewn sgyrsiau cymdeithasol byr iawn, hyd yn oed er nad ydwyf fi, fel arfer, yn gallu cadw’r sgwrs i fynd ohoni’i hunan.<br>• defnyddio cyfres o ymadroddion i ddisgrifio ac ateb cwestiynau am fy nheulu a phobl eraill, y tywydd.<br>• trosglwyddo cyfarwyddiadau neu negeseuon ffôn syml. | Rwy’n gallu:<br>• ysgrifennu nodiadau syml byr,gan gysylltu brawddegau syml â chysyllteiriau syml fel ‘a’, ‘ond’ac ‘oherwydd’.<br>• ysgrifennu llythyr neu e-bost syml iawn, e.e. yn diolch i rywun am wneud rhywbeth. |
| **B1** | Rwy’n gallu:<br>• manteisio ar ystod eang o iaith syml i ddelio â’r rhan fwyafo sefyllfaoedd sy’n debygol o godi yn fy ngwaith.<br>• deall ystyr gyffredinol e-byst a llythyrau yn ymwneud â’m maes diddordeb, ynghyd â llythyrau damcaniaethol o fewn cwmpas fy ngwaith.<br>• dechrau sgwrsio’n fyrfyfyr ar bynciau sy’n gyfarwydd imi, e.e. teulu, diddordebau, gwaith, teithio a digwyddiadaucyfredol.<br>• cynnig cyngor ar faterion syml, i gleientiaid o fewn cwmpasfy ngwaith.<br>• disgrifio profiadau a digwyddiadau, gobeithion ac uchelgeisiau.<br>• rhoi rhesymau ac esboniadau am fy marnau a’m cynlluniau, yn gwta | Rwy’n gallu:<br>• cymryd nodiadau gweddol gywir mewn cyfarfodydd neu seminarau lle mae’r pwnc yn un cyfarwydd ac yn rhagweladwy.<br>• ysgrifennu llythyrau neu e-byst yn disgrifio digwyddiadau, profiadau ac argraffiadau<br>• ysgrifennu memoranda neu e-byst anffurfiol i gyflwyno gwybodaeth. |

| Lefel Iaith | Siarad (rhyngweithio a chynhyrchu) | Ysgrifennu |
|---|---|---|
| **B2** | Rwy'n gallu :<br>• gwrando ar, deall a chyfrannu at drafodaethau mewn cyfarfodydd a seminarau.<br>• cymryd rhan weithredol mewn trafodaethau o fewn cyd-destunau cyfarwydd.<br>• mynegi barn yn glir.<br>• cyflwyno disgrifiadau manwl a chlir ar ystod eang o bynciau yn ymwneud â'm gwaith ,<br>• ehangu a chefnogi syniadau â phwyntiau atodol ac enghreifftiau perthnasol.<br>• egluro safbwynt ar bwnc cyfoes gan roi manteision ac anfanteision y gwahanol opsiynau.<br>• rhoi cyflwyniad clir ar bynciau cyfarwydd. | Rwy'n gallu:<br>• ysgrifennu darnau byr o ohebiaeth fusnes, ar ffurf llythyr neu e-bost, ar ystod eang o bynciau sy'n ymwneud â'm gwaith neu fy maes diddordeb, a hynny mewn Cymraeg safonol heb ddefnyddio templed (ond gan ddefnyddio gwirydd sillafu, geiriadur, adnoddau technegol a.y.b. pan fo angen).<br>• cymryd nodiadau neu ysgrifennu adroddiadau, gan drosglwyddo gwybodaeth neu roi rhesymau o blaid neu yn erbyn safbwynt arbennig. |
| **C1** | Rwy'n gallu:<br>• mynegi fy hunan yn rhugl ac yn ddigymell.<br>• defnyddio iaith yn hyblyg ac yn effeithiol at ddibenion cymdeithasol a phroffesiynol, gan gyfrannu'n hyderus at gyfarfodydd a chyflwyniadau ar lafar.<br>• ffurfio syniadau a barnau, gan sicrhau bod fy nghyfraniadau'n berthnasol i siaradwyr eraill.<br>• ymateb yn briodol i sefyllfaoedd diwylliannol a chymdeithasol gwahanol.<br>• cyflwyno disgrifiadau clir a manwl o bynciau cymhleth gan gyflwyno is-themâu, gan ddatblygu pwyntiau penodol, ynghyd â chloi'r cyflwyniad â chasgliad priodol. | Rwy'n gallu:<br>• ysgrifennu testunau wedi'u strwythuro'n glir, ynghyd â mynegi safbwyntiau am gyfnod hir.<br>• ysgrifennu esboniadau manwl ar bynciau cymhleth ar ffurf e-bost, llythyr, traethawd neu adroddiad, gan danlinellu'r materion perthnasol.<br>• ysgrifennu gwahanol fathau o destunau mewn arddulliau sy'n briodol i'r gynulleidfa sydd mewn golwg. |

| | | |
|---|---|---|
| **C2** | Rwy'n gallu:<br>• deall adroddiadau ac erthyglau yr wyf yn dod ar eu traws ynfy ngwaith, gan gynnwys syniadau cymhleth wedi'u mynegi mewn iaith gymhleth.<br>• cymryd rhan yn ddiymdrech mewn trafodaeth.<br>• mynegi fy hunan yn rhugl a chyfleu arlliwiau ystyr yn gywir.<br>• addasu ac ailstrwythuro fy nghyfraniad wrth imi gwrdd ag unrhyw anhawster a wynebir, mor esmwyth fel braidd nad yw pobl eraill yn ymwybodol ohono.<br>• cynghori ar faterion cymhleth, anodd a chynhennus megis materion cyfreithiol neu ariannol, i'r graddau y mae fy ngwybodaeth arbenigol yn ymestyn.<br>• cyflwyno disgrifiadau neu ddadleuon yn dda, yn llyfn ac yn glir, yn y cywair sy'n briodol i'r cyd-destun, ac sydd â strwythur rhesymegol ac effeithiol sy'n helpu i dynnu sylw'r sawl sy'n gwrando ar y pwyntiau arwyddocaol. | Rwy'n gallu:<br>• cymryd nodiadau llawn a chywir a pharhau i gymryd rhan mewn cyfarfodydd a seminarau.<br>• ysgrifennu testunau wedi'u strwythuro'n dda ac yn llyfn ac yn y cywair priodol.<br>• ysgrifennu adroddiadau neu erthyglau technegol gymhleth strwythuredig sy'n helpu i dynnu sylw'r sawl sy'n darllen, at y pwyntiau arwyddocaol.<br>• ysgrifennu adolygiadau o weithiau proffesiynol a/neu rai llenyddol. |

**Atodiad 2 – Cyrsiau Dysgu Cymraeg yng nghyd-destun Lefel Dysgu Fframwaith Cyngor Ewrop**

| **Enw'r Lefel** | **Disgrifiad** | **Lefel dysgu Fframwaith Cyngor Ewrop** | **Isafswm oriau cyswllt a argymhellir** |
|---|---|---|---|
| **Mynediad** | Cyrsiau ar gyfer dechreuwyr, sy'n cyflwyno geirfa a phatrymau iaith syml ac ymadroddion pob dydd. Mae'r pwyslais ar siarad yr iaith. | A1 | 120 |
| **Sylfaen** | Mae'r lefel hon yn adeiladu ar lefel Mynediad ac yn gofyn am rywfaint o brofiad o'r Gymraeg. Mae'r prif bwyslais ar siarad yr iaith, gyda chyfle i drafod pynciau pob dydd fel y teulu a ffrindiau, gwaith a diddordebau. | A2 | 120 |
| **Canolradd** | Mae'r lefel hon yn adeiladu ar lefel Sylfaen ac yn addas ar gyfer pobl sy'n gyfarwydd â phrif batrymau'r Gymraeg. Mae cyfle i ddatblygu sgiliau sgwrsio, gydag ychydig mwy o waith ysgrifennu, darllen a gwrando. Meithrin siaradwyr hyderus wrth drafod materion pob dydd yw'r prif nod. | B1 | 120 |
| **Uwch** | Dyma gyfle i ymarfer trafod pynciau a themâu o bob math. Bydd dysgwyr hefydyn datblygu eu sgiliau darllen, ysgrifennu agwrando. Meithrin siaradwyr hyderus yw'r prif nod. | B2 | 360* |
| **Gloywi** | Mae'r cyrsiau Hyfedredd, sy'n addas ar gyfer dysgwyr rhugl a siaradwyr iaith gyntaf, yn cael eu teilwra ar gyfer anghenion y dosbarth.Y nod cyffredinol yw datblygu sgiliau presennol y myfyrwyr ymhellach a'u helpu i fagu hyder. | | |

*Canolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol*

*https://learnwelsh.cymru/media/10645/ad-blyn-2020-darllen-spreads.pdf*

** Mae tri cwrs ar lefel Uwch – U1, U2 a U3 (120 awr yr un)*